OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 821

# Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009

**Derbyn plant perthnasol sy'n derbyn gofal y mae adran 87 o Ddeddf 1998 yn gymwys iddynt (derbyn disgyblion a waharddwyd ddwywaith)**

**9.**—(1) Nid yw adran 95(2) o Ddeddf 1998 yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniad a wnaed gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru neu ar ran awdurdod o'r fath i dderbyn plentyn perthnasol sy'n derbyn gofal i ysgol.

(2) Mae'n rhaid i'r awdurdod addysg lleol yng Nghymru ymgynghori, yn y modd a ragnodir yn y cod ar gyfer derbyn i ysgolion, â chorff llywodraethu unrhyw ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yng Nghymru cyn gwneud cais ar ran plentyn perthnasol sy'n derbyn gofal ac y mae adran 87 o Ddeddf 1998 yn gymwys iddo am iddo gael ei dderbyn.

(3) Caiff y corff llywodraethu, o fewn cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth y ffurflen gais i law, gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru yn y modd a ragnodir gan gyflenwi'r wybodaeth yn y modd a allai gael ei ragnodi yn y cod ar gyfer derbyn i ysgolion.

(4) Ni cheir cyfeirio mater o dan baragraff (3) ond ar y sail y byddai derbyn y plentyn i'r ysgol yn rhagfarnu'n sylweddol yn erbyn darparu addysg effeithiol neu ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.